Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/2213/25

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

25 Tachwedd 2025

Annwyl Elin,

**OFFERYNNAU STATUDOL CYMREIG**

Un o amcanion y Llywodraeth i wella hygyrchedd deddfwriaeth Cymru yw moderneiddio ffurf a strwythur y ddeddfwriaeth honno. Roeddwn felly yn falch iawn i'r Senedd gytuno, wrth ddeddfu Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, y dylai fod cysyniad cyfreithiol newydd o 'offeryn statudol Cymreig'. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ddewis dyluniad newydd, sy'n addas ar gyfer yr oes sydd ohoni, ar gyfer yr offerynnau hynny.

Bydd y dyluniad newydd yn wahanol i'r fformat colofn ddeuol a ddefnyddiwyd ar gyfer Offerynnau Statudol y DU a wnaed gan, neu ar ran, Gweinidogion Cymru (ac yn flaenorol y Cynulliad Cenedlaethol) ers 1999. Yn hytrach, bydd offerynnau statudol Cymreig bellach yn cael eu hargraffu mewn un ddogfen gyda'r ddwy iaith wedi'u hargraffu'n ddilyniannol.

Bydd clawr blaen dwyieithog yn rhagflaenu testun Cymraeg y ddeddfwriaeth, a fydd yn cael ei argraffu yn ei gyfanrwydd ar ffurf tudalen lawn ac yn dod yn gyntaf. Bydd testun Saesneg y ddeddfwriaeth yn dilyn ar ôl y testun Cymraeg, hefyd wedi'i argraffu yn ei gyfanrwydd ar ffurf tudalen lawn. Felly, bydd y ddwy iaith yn dal i gael eu hargraffu yn yr un ddogfen i ddefnyddwyr gael mynediad iddynt, a bydd y ddwy iaith yr un mor hygyrch â'i gilydd.

Yn ogystal â hyn, ni fydd y ffurfdeip serif Times New Roman a ddefnyddir ar offerynnau statudol a argreffir fel rhan o gyfres y DU, yn cael ei ddefnyddio ar offerynnau statudol Cymreig. Yn lle hynny, defnyddir y ffurfdeip sans serif Helvetica. Mae'r ffurfdeip hwn yn cael ei nodweddu gan ddyluniad llinol, syml, sy'n golygu ei fod yn hynod ddarllenadwy.

Dewiswyd y ffurfdeip a'r fformat yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

Mae fy swyddogion wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i archwilio unrhyw effeithiau posibl y dyluniad newydd hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi ar llyw.cymru yn y modd arferol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i symud i rifo troednodiadau yn barhaus yn y ddwy iaith mewn offerynnau statudol Cymreig (yn hytrach na'r rhifo yn ailgychwyn ar bob tudalen). Rwy'n credu y bydd hyn yn ei gwneud yn symlach i ddefnyddwyr adnabod y troednodyn perthnasol, wrth adolygu testun y ddwy iaith yn y dyluniad newydd. Bydd y penawdau gweithdrefnol a chywiro ar gyfer offerynnau statudol Cymreig yn adlewyrchu'r gofynion newydd a nodir yn Rhan 2A o Ddeddf 2019.

Mae'n bwysig nodi na fydd y dyluniad newydd yn gymwys i'r fersiwn HTML o offerynnau statudol Cymreig a gyrchir ar legislation.gov.uk.

Yn gyffredinol, y fersiwn HTML sydd bellach yn cael ei chyrchu gan y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr deddfwriaeth, nid lleiaf oherwydd y fersiwn hon a fydd yn fwyaf diweddar. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod testun Cymraeg a Saesneg y fersiynau HTML ar gael mewn modd sy'n galluogi darllenydd y ddeddfwriaeth i ystyried y ddau ar yr un pryd mewn ffordd syml. Byddaf, felly, yn ysgrifennu at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i esbonio pwysigrwydd y mater hwn ac i'w annog i wneud y gwelliant hwn i wefan legislation.gov.uk. Efallai yr hoffech wneud yr un peth.

Ar ben hynny, bydd Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, offerynnau ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd yn parhau i gael eu gwneud fel offerynnau statudol y DU. O ganlyniad, byddant yn parhau i gael eu hargraffu yn eu ffurf bresennol, sef fformat colofn sengl a ffurfdeip Times New Roman.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery